

Y Gymraeg Mewn Arfer Proffesiynol (ECAD6022-C) 2026-27



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 1:
Adfyfyrio ac Ymwybyddiaeth Iaith

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

PRYD?



Bydd pob darlith ar y campws.

Fel arfer ar ddyddiau Mawrth.

Cofiwch wirio eich amserlenni rhag ofn bydd unrhyw newidiadau. *



Adnoddau



Holl adnoddau'r darlithoedd ar Moodle

**Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol – 3
(ECAD6022-C)**



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith

www.athrofa.cymru

Adfyfyrio

Eich lefelau ar ddiwedd BA2



- Fel ddylech chi fod wedi e-bost oddi wrth y Cyngor Gweithlu
- Angen agor eich Pasport Dysgu Proffesiynol
- Bydd y lefelau yn ymddangos ar waelod y dudalen 'Fframwaith Cymwyseddau i Athrawon'.
- Unrhyw gwestiynau?

Adfyfrio



Meddyliwch am y canlynol:


- 1. Beth yw **eich cryfderau chi** wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg y dysgwyr yn eich sector?
- 2. Pa dechnegau newydd (addysgu a dysgu iaith) ddysgoch chi llynedd?
- 3. Pa **sgiliau** ydych chi'n edrych ymlaen fwyaf at eu datblygu eleni?
- 4. Targedau personol ar gyfer y modwl hwn eleni.

	B2 - UWCH	
GWRANDO	Gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol e.e. mewn cyd-destun ffurfiol	- Rhyngweithio'n estynedig ac yn hyderus gyda'r dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth dda wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafared (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgricwlaidd - Gwrando ar eraill mewn amrywiol gyd-destunau gan ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol.
LLAFAR	Gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Gallu mynegi a chyfiawnhau barn. Gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	- Defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, hyderus a chynyddol gywir ar draws y cwricwlwm, ateb a holi cwestiynau, ehangu sgwrs, gwrando trafod ac ymateb i safbwynt, ystyried a chynnig rhesymau am safbwynt - Siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tŷn a chryfder y llais, i gadw diddordeb amrediad o wrandawyr, boed yn ddysgwyr neu'n rhieni neu ymwelwyr - Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a ffurfiau berfol ac ystod o dreigladau yn gywir yn eu cyd-destun, ynghyd â defnydd cywir gan fwyaf o dermau cenedl enwau ac arddodiaid.
DARLLEN	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Gallu darllen straeon yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	- Darllen a dehongli testun ar goedd yn hyderus, trafod cynnwys a chyfeirio at dermau yn ddeallus - Defnyddio nodiadau'n effeithiol er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth arfau iaith cyfrifiadurol. Gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	- Cyflwyno adborth ysgrifenedig ar dasgau gan ysgrifennu'n ymestynnol gan arddangos gwybodaeth dda o gywirdeb, rheolau gramadeg a'r awydd i drosglwyddo'r sgiliau hynny i ddisgyblion sy'n ddysgwyr - Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a phatrymau, ffurfiau berfol safonol, ac ystod o dreigladau yn gynyddol gywir gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol.



	C1 - HYFEDREDD	
GWRANDO	Gallu deall ac ymateb i bopeth sy'n cael ei glywed gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr	- Rhyngweithio'n estynedig, yn hyderus ac yn naturiol gyda dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth gadarn wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafared (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd - Gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, ac ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben.
LLAFAR	Gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Gallu hunangywiro lle bo angen.	- Defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith Gymraeg yn naturiol, hyderus a chywir gan fwyaf ar draws y cwricwlwm, gyda'r gallu i ehangu trafodaeth, arddangos gwybodaeth o gywair, cyfleu safbwynt, disgrifio'n fedrus, cymharu, defnyddio geirfa eang gydag ystod o briod-ddulliau - Cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. mynegiant, tôn y llais. - Defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir, ynghyd â defnydd cywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid gyda'r gallu i hunangywiro a chywiro eraill ar lafar yn ôl yr angen.
DARLLEN	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.	- Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol - Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Gallu hunangywiro lle bo angen gan ddangos defnydd cywir o arfau iaith cyfrifiadurol.	- Ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darlennydd neu'r gynulleidfa - Ysgrifennu'n fedrus a chywir tra'n arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol i wirio gwaith personol ac eraill.

Fframwaith Cymwyseddau Iaith -
Hunanasesu ar ddechrau'r flwyddyn.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith

www.athrofa.cymru

Cwestiwn allweddol:

Beth ydy eich profiad chi o'r Gymraeg?

Trafodwch.




Chi a'r Gymraeg

Ar ddarn o bapur ysgrifennwch am:

- eich profiadau o'r iaith Gymraeg fel dysgwr (ysgol / cyrsiau iaith).
- eich profiadau o'r iaith Gymraeg yn allgyrsiol.
- eich profiadau o'r iaith Gymraeg fel myfyriwr, hyd yn hyn.



Yr Iaith Gymraeg - Pwysigrywdd Cefndir a Chyd-destun




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Beth ydy Cymreictod i chi?





"A language is not just words. It's a culture, a tradition, a unification of a community, a whole history that creates what a community is. It's all embodied in a language."

Noam Chomsky

The Language Nook - The blog in and about English and French

© Yvonne Bodin - yvonnebodin.com

Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd. Byddwn hefyd yn paratoi'r gweithlu i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes.

(Strategaeth Y Gymraeg Mewn Addysg)




Y Gymraeg ...



- Mae'r Gymraeg yn un o ieithoedd hynaf Ewrop. Tan y 19G siaradwyd y Gymraeg fel iaith bob dydd gan fwyafrif pobl Cymru.
- O'r ieithoedd a siaredir ar ynysoedd Prydain heddiw, hi yw'r hynaf.





Trafodwch.



“Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni gyd yng Nghymru lle bynnag yr ydym ar y continwwm ieithyddol. Mae pob disgybl yng Nghymru felly yn haeddu dod yn siaradwr Cymraeg, ac mae cyfrifoldeb arnom ni oll sy’n gweithio yn y system addysg i weithio tuag at y nod hynny.”

**Y Gweinidog Addysg a’r Gymraeg, Bil Addysg Gymraeg
(Papur Gwyn 2023)**



- Pa ddigwyddiadau hanesyddol sydd wedi cael dylanwad ar yr iaith Gymraeg yn eich barn chi?

Trafodwch.



Llinell Amser yr Iaith Gymraeg

(rhai o'r prif ddigwyddiadau)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Crynodeb o hanes ein hiaith

1000 CC	Roedd ieithoedd Celtaidd yn Ewrop cyn Crist.
6ed ganrif	Aneirin a Taliesin yn barddoni gan ddefnyddio'r hen Gymraeg.
1250	Llyfr Du Caerfyrddin Llawysgrifiau pwysig yn y Gymraeg sy'n cynnwys cerddi, straeon a chwedlau.
1300	Dafydd ap Gwilym, un o feirdd enwocaf Cymru yn barddoni.
1535 a 1542	Y Deddfau Uno Brenin Harri'r VIII yn cyflwyno deddfau oedd yn atal defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw sefyllfa ffurfiol.



1546	Cyhoeddi'r llyfr cyntaf yn y Gymraeg – Yn y Llyfr Hwn.
1588	Yr Esgob William Morgan yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Carreg filltir bwysig.
1731	Ysgol Cylchynnol Griffith Jones, Llanddowror Dysgwyd dros hanner o boblogaeth Cymru i ddarllen.
1792	Ffurfiwyd “Gorsedd y beirdd Ynys Prydain” ar Fryn Briallu yn Llundain.
1847	Brad y Llyfrau Gleision Daeth tri bargyfreithiwr o Loegr i adolygu addysg yng Nghymru. Dyma adroddiad negyddol gafodd effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Dyfodiad y ‘Welsh Not’ mewn ysgolion.

“The Welsh language is a vast drawback to Wales, and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its evil effects.”

Adroddiad Addysg 1847



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

- Felly, beth oedd y trobwynt yn hanes yr iaith?
- Pa newidiadau allweddol a datblygiadau sydd wedi bod ers Brad y Llyfrau Gleision er mwyn sicrhau ein bod ni dal yn siarad Cymraeg heddiw?

Trafodwch



Beth sydd ar goll?

1922: Sefydlu'r _____

1939: Ysgol Gynradd
Gymraeg breifat
gyntaf yn cael ei
hagor yn Aberystwyth

1947: Ysgol Gynradd
Gymraeg gyntaf. Ysgol
_____ yn Llanelli

1956: Ysgol
Uwchradd Gymraeg
gyntaf. Ysgol Glan
Clwyd

1990: Y
Gymraeg yn
bwnc gorfodol
yn CA1-3
(oedran 5-14)

1971:
Sefydlu
Mudiad

1967/ 1993:
Deddf Iaith
Gymraeg

1962: Araith _____:
'Tynged yr Iaith'
Sefydlu Cymdeithas yr Iaith



Atebion

1922: Sefydlu'r Urdd

1939: Ysgol Gynradd
Gymraeg breifat
gyntaf yn cael ei
hagor yn Aberystwyth

1947: Ysgol Gynradd
Gymraeg gyntaf. Ysgol
Dewi Sant yn Llanelli

1956: Ysgol
Uwchradd Gymraeg
gyntaf. Ysgol Glan
Clwyd

1990: Y
Gymraeg yn
bwnc gorfodol
yn CA1-3
(oedran 5-14)

1971: Sefydlu
Mudiad
Meithrin

1967/ 1993:
Deddf Iaith
Gymraeg

1962: Araith Saunders
Lewis: 'Tynged yr Iaith'
Sefydlu Cymdeithas yr Iaith

Beth sydd ar goll?

_____: Y Gymraeg yn bwnn gorfodol yn CA4 (oedran 14-16)

2010: Strategaeth Addysg Gymraeg i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion

2014: Dyfodol Llwyddiannus: yr Athro Graham _____ edrych ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu

2023: Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

2022: Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg

2020: _____: Y _____ daith i 2022

2017: Cymraeg _____: Miliwn o siaradwyr

2018: Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth



Atebion

1999: Y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn CA4 (oedran 14-16)

2010: Strategaeth Addysg Gymraeg i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion

2014: Dyfodol Llwyddiannus: yr Athro Graham Donaldson edrych ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu

2023: Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

2022: Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg

2020 Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022

2017: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

2018: Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

Crynodeb o hanes ein hiaith yn llawn.

1865	Michael D Jones “Y Wladfa” yn cael ei ffurfio ym Mhatagonia.
1893	Sefydlu Prifysgol Cymru.
1901	Sensws: 43.5% o’r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1914 - 1918	Rhyfel Byd Cyntaf.
1921	Sensws: 37.1% o’r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1922	Sefydlu Urdd Gobaith Cymru.
1931	Sensws: 36.8% o’r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

1939	Ysgol Gynradd Gymraeg cyntaf yn cael ei hagor yn Aberystwyth. Ysgol breifat oedd hon.
1939 - 1945	Yr Ail Ryfel Byd.
1947	Ysgol Dewi Sant, Llanelli Agor yr ysgol gynradd Gymraeg awdurdod lleol gyntaf.
1951	Eileen a Trefor Beasley, Llanelli Gwrthododd y ddau dalu bil treth oddi wrth Gyngor Llanelli am ei fod yn uniaith Saesneg.
1951	Sensws: 28.9% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1956	Ysgol Glan Clwyd Agor yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf.

1961	Sensws: 26% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1962	Tynged yr Iaith Darlith radio Saunders Lewis yn rhybuddio'r Cymry am ddyfodol yr iaith Gymraeg.
1962	Sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.
1965	Cafodd dyffryn Cwm Celyn ei boddi er mwyn darparu dŵr i ddinas Lerpŵl.
1967	Deddf yr Iaith Gymraeg Deddf iaith gyntaf ers y Deddfau Uno – rhoi statws i'r iaith Gymraeg.
1971	Sensws: 20.8% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1971	Sefydlwyd Mudiad Meithrin.


1979	Refferendwm 79.74% yn pleidleisio yn erbyn annibyniaeth.
1981	Sensws: 19% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1982	Sefydlu S4C.
1991	Sensws: 18.7% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
1993	Deddf yr Iaith Gymraeg Rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg yn y Llywodraeth, awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus a llysoedd.
1997	Refferendwm 50.3% yn pleidleisio dros annibyniaeth.
1999	Cynlluniad Cenedlaethol Cymru.

2001	Sensws: 20.8% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
2003	Iaith Pawb Cynllun a gyflwynwyd gan y Llywodraeth er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o 5% erbyn 2011.
2010	Strategaeth Addysg Gymraeg Cynllun y Llywodraeth i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion.
2011	Sensws: 19% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
2012- 2017	Iaith fyw: iaith byw.
2012	Comisiynydd yr iaith Gymraeg.

2017	Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Strategaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.
2018	2018: Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth Safonau sy'n amlinellu'r disgwyliad i bob ymarferwr ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a'u defnydd o'r Gymraeg trwy gydol eu gyrfa, yn ogystal ag ymestyn sgiliau a gallu'r dysgwyr yn y Gymraeg.
2021	Sensws: 17.8% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.
2022	Yr Urdd: can mlwyddiant.
2022	Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg Cynllun deng mlynedd Llywodraeth Cymru i sicrhau gweithlu sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i wireddu amcanion Cymraeg 2050 a Chwricwlwm i Gymru.
2025	Deddf Addysg Gymraeg.



Pam ei bod hi'n bwysig edrych yn ôl cyn edrych
ymlaen?
Trafodwch.



“Yn ddiweddar roeddwn yn annerch criw o bobl yn eu hugeiniau a oedd wedi derbyn eu haddysg yng Nghymru. Gofynnais iddynt daro ar bapur un peth diddorol am y lle y’u maged. Bu tawelwch. Neb yn ysgrifennu dim. Yna, rhoddais restr o ddyddiadau ar y bwrdd gwyn, 383, 1066, 1536, 1588, 1847, 6/5/1999. Yr unig ddyddiad a ganai gloch iddynt oedd 1066. Rhifau oedd y lleill heb unrhyw arwyddocâd.”

Yr Athro Mererid Hopwood, ‘Rhowch yr arf o ddwyieithrwydd i’ch disgyblion’ tud. 7



“Mae’n hen bryd i ni yng Nghymru agor ein llygaid a’n meddyliau a mynd ati i ddysgu am y stori o’n cwmpas yn ein caeau a’n bryniau a’n mynyddoedd, yn ein nentydd a’n hafonydd a’n moroedd, yn ein cymunedau a’n teuluoedd. Mae hon yn stori sy’n cynnwys pawb sydd ac a ddaw i fyw i Gymru.

Ein braint ni yw ei rhannu – hanesion a’r hanes ac ychwanegu ati, pob un ohonom yn dod â’n lliwiau amrywiol ein hunain i’w chyfoethogi. Dyma’r ffordd i gryfhau’r gwreiddiau sy’n rhoi i ni ein synnwyr o berthyn. A dyma’r ffordd a fydd wedyn yn cyfannu ein cymdeithas ac yn ein galluogi i gyrraedd dyfodol llwyddiannus.”

Yr Athro Mererid Hopwood, ‘Rhowch yr arf o ddwyieithrwydd i’ch disgyblion’ tud.8



Sefyllfa bresennol...?

2011 - 2021 =
gostyngiad pellach o
1.2%



Canlyniadau cyfrifiad		
1891	54.5%	910,289 o siaradwyr
1901	49.9%	929,824 o siaradwyr
1911	43.5%	977,366 o siaradwyr
1931	36.8%	909,261 o siaradwyr
1951	28.9%	714,686 o siaradwyr
1981	18.9%	508,207 o siaradwyr
1991	18.6%	508,098 o siaradwyr
2001	20.8%	582,368 o siaradwyr
2011	19.0%	562,000 o siaradwyr
2021	17.8%	538,300 o siaradwyr




Beth mae'r cyfrifiad yn ei ddweud?

- Yn ôl cyfrifiad **1911**, roedd 977,366 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghymru, (sef **43.5%** o'r boblogaeth).
- Yn ôl cyfrifiad **2011**, roedd y nifer a'r ganran wedi haneru, gyda 562,000 o siaradwyr Cymraeg bellach yn byw yng Nghymru, (sef **19%** o'r boblogaeth).
- Yn ôl cyfrifiad **2021**, roedd 538,300 o siaradwyr Cymraeg bellach yn byw yng Nghymru, (sef **17.8%** o'r boblogaeth).



Canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grwpiau oedran, 2011 a 2021

Percentage of people aged three or older able to speak Welsh, by age group, 2011 and 2021



Grwp oedran | Age group

Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth, 2011 a 2021
Source: Census of population, 2011 and 2021

Beth ydych chi'n sylwi?
Beth ydy effaith addysg
Gymraeg?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Beth wnaeth Llywodraeth Cymru?

“Mae'r Gymraeg yn **un o drysorau Cymru**. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd **miliwn erbyn 2050**. Mae hon yn sicr yn uchelgais heriol, ond her rydyn ni'n credu sy'n werth chweil ac yn angenrheidiol os ydyn ni am sicrhau bywiogrwydd yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”

Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg tud.4



“Mae hon yn strategaeth i Gymru gyfan, ac rydym am i bob rhan o’r wlad rannu’r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg. Ond mae angen sicrhau hefyd hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy’n hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.

Ein gweledigaeth ym mhob rhan o’r wlad yw creu amodau ffafriol sy’n cefnogi’r broses o gaffael yr iaith a’r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo’r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno’r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy’n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau iaith yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gweithle, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.” Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg tud.9

Targedau

Erbyn 2050, y nod yn y strategaeth ydy:
Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22% i 30% erbyn 2031, ac yna i 40% erbyn 2050.



Targedau

Nod yn y strategaeth ydy cynyddu nifer yr **athrawon cynradd** sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031.

Erbyn 2050, maent am gynyddu'r nifer i 5,200.



Nod yn y strategaeth ydy cynyddu nifer yr **athrawon uwchradd** sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031.

Erbyn 2050, maent am gynyddu'r nifer i 4,200.

Y Gweithlu Addysg



“... y system addysg a hyfforddiant yw’r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae angen sicrhau bod pobl o bob oedran yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio’r iaith yn hyderus yn eu bywyd bob dydd.”

(Llywodraeth Cymru, 2017, t.31)

Byddwch chi’n gwneud gwahaniaeth
yn eich ysgolion.

Felly, beth am fyd addysg yng Nghymru
heddiw?

Beth sy'n digwydd yn ein hysgolion i
gefnogi hyn?



“Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd. Byddwn hefyd yn paratoi'r gweithlu i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes.”

(Strategaeth Y Gymraeg Mewn Addysg)



Taith addysg

- Cwricwlwm Cenedlaethol 2008
- Diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2015
- Mawrth 2014 – Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Athro Graham Donaldson adolygu addysg a threfniadau asesu yng Nghymru
- Rhwng Mawrth a Rhagfyr 2014, ymgynghorwyd â 60 o ysgolion ledled Cymru
- Chwefror 2015: cyhoeddwyd Adroddiad: Dyfodol Llwyddiannus (Yr Athro Graham Donaldson)
- Yn dilyn hynny cafodd argymhellion yr adroddiad eu hystyried cyn cyhoeddi diwygiadau mawr i addysg yng Nghymru.




- Ionawr 2020 cyhoeddi Canllawiau Cwricwlwm i Gymru.
- 2025: Deddf Addysg Gymraeg



Canllawiau Cwrwicwlwm i Gymru

“Mae wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach.”
(Llywodraeth Cymru, 2020, t.5)



Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:

Mae maes dysgu a phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn eang ei natur ac yn cwmpasu'r disgyblaethau canlynol:

- **Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg**
- Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg
- Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg
- Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg
- leithoedd Rhyngwladol
- leithoedd Clasurol
- **Llenyddiaeth**
- **Llythrennedd ar draws y cwricwlwm**
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- leithoedd y cartref a'r gymuned
- **leithoedd dieiriau, e.e. iaith Arwyddo Prydain, Systemau Cyfathrebu Uwch.**




Y Gymraeg, ein hiaith :

“Gyda’n gilydd rhaid cofleidio’r cyfle hwn i’n cyfannu fel trigolion gwlad fach a thrigolion byd mawr, er mwyn codi’n hyder a thrwy hynny ymggyrraedd at bedwar diben clodwiw’r cwricwlwm newydd.”

Yr Athro Mererid Hopwood, ‘Rhowch yr arf o ddwyieithrwydd i’ch disgyblion’ tud.8



Ein taith iaith.



Syniadau ac adnodd pellach.

[Mewn
Cymeriad: Taith
yr Iaith](#)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Mwy o Stori'r Iaith

<https://mwyostoririaith.cymru/>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAG  **Riaith**

www.athrofa.cymru

Partneriaeth: Hanes yr Iaith

<https://www.youtube.com/watch?v=e39O5e-sEck>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

**MAE'R GYMRAEG
FEL PÊL
- RHAIID EI PHASIO I
ERAILL ER MWYN SICRHAU
BUDDUGOLIAETH!**



CYMRU A'R GYMRAEG AM BYTH!



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORiaith

www.athrofa.cymru

Darllen Cefndirol

Canllaw Cwricwlwm i Gymru

<https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf>

Y Gymraeg Mewn Addysg

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf>

Cymraeg 2050

<https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

Adnoddau

[Mewn Cymeriad: Taith yr Iaith](#)

[Mwy o Stori'r Iaith](#)

[Partneriaeth: Hanes yr Iaith](#)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru